OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 4002

## Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001

**Hysbysu penodiadau etc.**

**17.** Rhaid i'r awdurdod penodi:

(a) hysbysu Cyngor Cefn Gwlad Cymru (y Cyngor) o enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau a benodir i fod yn aelodau (gan gynnwys Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion) o fforymau ac o unrhyw newidiadau yn aelodaeth y fforymau hynny;

(b) anfon copi o bob adroddiad blynyddol at y Cyngor ar ôl ei gymeradwyo; ac

(c) pan ofynir amdani, rhoi i'r Cyngor unrhyw wybodaeth arall am weithgareddau unrhyw fforwm y bydd y Cyngor yn rhesymol ofyn amdani.